Cwrs Band Pres Iau

Chwefror 4ydd - 5ed 2012

Annwyl gerddor !

Mae'n flwyddyn allweddol i'r band pres iau eleni eto gan y byddwch yn cystadlu yng nghystadleuaeth **Bandiau Pres Ieuenctid Prydain 2012.** Mae'r band wedi bod yn andros o lwyddianus yn y gystadleuaeth yn y gorffenol ac rydym yn barod i roi ein holl egni i gadw'r enw da eto eleni !

Er budd cael y gorau o'r ymarferion, rydym yn cynnal **cwrs preswyl un noson** yng Ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn. Bydd cyfle i chi ddysgu repertoire newydd ar gyfer y flwyddyn a pharatoi ar gyfer cystadleuaeth a gynhelir yn y Royal Northern College of Music, Manceinion ar y 22ain o Ebrill 2012.

Pris y cwrs fydd £55 yn cynnwys trafnidiaeth o Galeri i Glan Llyn ac yn ôl, aros un noson a phrydau bwyd poeth yn ystod y ddau ddiwrnod. Byddwch angen dod a sach gysgu a gobennydd gyda chi. Ni fyddwn yn dosbarthu trefniadau y bws hyd nes y byddwn wedi derbyn enwau pawb i fewn.

Mae'n bleser gennyf felly gyflwyno manylion y cwrs i chi. Bydd angen i chi hefyd lenwi taflen iechyd Gwersyll Glan Llyn.

Cwblhewch y daflen amgaeedig a'i yrru yn ôl gyda'ch tâl erbyn Rhagfyr 12fed 2011 - i sicrhau eich lle. Mae'r wybodaeth a'r ffurflenni hefyd ar gael ar ein gwefan www.cerdd.com.

Edrych ymlaen i'ch gweld chi yno !

Gwenda Lloyd Morus

Manylion y cwrs :

Dyma fraslun o amserlen y penwythnos - mae'r prif fanylion am y gwersyll a'r anghenion preswyl ar y daflen y gwersyll ei hun. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi y ffurflen gofrestru a'r ffurflen iechyd cyn eu gyrru i ni yn y swyddfa cyn Rhagfyr 12fed.

Diolch yn fawr.

Dyddiad	**Chwefror, 4,5** **(Dydd Sadwrn a Dydd Sul)**		
Lleoliad	**Gwersyll Glan Llyn**		
Digwyddiadau a Lleoliadau:	**Dydd Sadwrn**	**8:00**	**Bws yn cychwyn ei daith o Gaernarfon.** Manylion pellach i ddilyn.
		9:30	**Cofrestru Glan Llyn**
		10:00	**Ymarfer**
		12:00	**Cinio llawn**
		1:30 - 3:00	**Ymarfer**
		3:30	**Tê**
		4:00	**Ymarfer**
		6:00	**Swper**
		7:00	**Ymarfer a gweithgaredd**
	Dydd Sul	**9:00**	**Brecwast**
		9:30 **12:00** **1:00** **3:30**	**Ymarfer** **Cinio** **Ymarfer** **Tê**
		4:00	**Cychwyn adref**
		5:30	**Cyrraedd Galeri Caernarfon**
Preswyl	Nos Sadwrn. Mae'r daflen amgaedig gan y gwersyll yn rhoi yr holl wybodaeth i chi am anghenion preswyl y disgyblion. Bydd staff yn goruchwylio plant ac rydym wedi trefnu adloniant ar gyfer y penwythnos. ***Byddwch angen dod a gobennydd a sach gysgu eich hunain***		

Bwyd	**Mae'r gwersyll yn paratoi brecwast, cinio, tê a swper. Mae dewis ynghlwm wrth bob pryd a bydd opsiwn llysieuol ym mhob pryd. Mae siop yno a gallwch ddod a arian poced.**
Cludo	Bydd bws yn codi pawb o'r Galeri, Caernarfon am 8:00 fore Sadwrn
Cysylltu	Gallwch gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynnau neu ofynion ychwanegol. **Gwenda Lloyd Morus: 01286 685 236** **Mari Lloyd Pritchard: 01286 685 237** **Gwersyll Glan Llyn: 01678 541000**

FFURFLEN GOFRESTRU - Band Pres lau

Enw :			
Enw Rhiant :			
Cyfeiriad:			
Rhif ffôn adref:			
Rhif symudol plentyn:			
Rhif symudol rhiant:	1. 2.		
Opsiwn Talu 1	Mynychu 2 diwrnod llawn Preswyl (1 noson) + prydau bwyd poeth	**£55**	Talu yn Llawn erbyn Rhagfyr 12fed
Opsiwn Talu 2	**Mynychu 2 diwrnod llawn Preswyl (1 noson) + prydau bwyd poeth**	**£30**	**Erbyn Tachwedd 30ain 2011**
		£25	**Erbyn Rhagfyr 12fed 2011**

Amgaeaf siec am £ ..... *yn daladwy i* ***Gwasanaeth Ysgolion William Mathias.***

Rhoddaf ganiatâd i'm plentyn fynychu y cwrs ac i fod yn rhan o **luniau** o'r cwrs a ddefnyddir er budd marchnata y gwasanaeth:

Arwyddwyd (rhiant / gwarchgeidwad) .....